Pwy sydd i fynd?

(unigrwydd / penderfyniad / dewrder)

Bob nos byddai Tien Chi yn gwrando'n astud ar straeon ei dad-cu. Roedd y rhan fwyaf o'r straeon yn adrodd hanes y rhyfel yn y wlad. Ond un noson roedd stori ei dad-cu yn stori wahanol.

"Heno," meddai wrth Tien Chi, ei fam, a'i fam-gu, "rydw i eisiau i chi wrando'n astud. Mae'r llywodraeth newydd yn mynd i ddwyn y darn tir oddi arnon ni."

"Ond sut fedrwn ni wynebu'r dyfodol?" gofynnodd ei fam. "Os byddwn ni'n colli'r darn tir yna fydd gynnon ddim i dyfu cnydau. A sut ydym ni'n mynd i gael bwyd wedyn?"

Dim ond deg oed oedd Tien Chi ond roedd wedi hen arfer clywed newyddion drwg. Pan dorrodd y rhyfel yn y wlad bu'n rhaid i'w dad fynd i ymladd dros ei wlad. Wnaeth Tien byth anghofio'r diwrnod hwnnw pan ddaeth y newydd fod ei dad wedi'i ladd yn y brwydro. Felly doedd dim amdani ond symud at Tad-cu a Mam-gu ac yno roedden nhw wedi byw ers tair blynedd. Roedd hi wedi bod yn dair blynedd eithriadol o anodd i'r teulu. Gan mai ychydig o dir oedd yn eiddo iddyn nhw roedd hi wedi bod yn anodd iawn i dyfu cnydau a buasai colli'r llain tir yn drychineb i'r teulu.

Dechreuodd y fam-gu grio pan glywodd yr hyn oedd gan ei gŵr i'w ddweud. "Mi fedra i wneud ychydig o waith gwnïo a gwerthu'r cynnyrch yn y farchnad," meddai a'r dagrau'n llifo i lawr ei gruddiau. "Does yna ddim ond un dewis," meddai Tien, "mae'n rhaid i ni symud oddi yma. Mae'n rhaid i ni chwilio am wlad arall. Mae'r llywodraeth yma'n gormesu pawb. Dyna'r unig ddewis sydd gan bobl dlawd fel ni. Mynd a hynny cyn gynted ag y medrwn ni." Meddyliodd y tad-cu am funud cyn dweud gair, "Rwyt ti'n iawn, ond yr unig ffordd y gall hyn ddigwydd ydi i ni brynu lle ar y cychod sy'n mynd â phobl fel ni i wledydd eraill. Ond y drwg ydi fod pawb eisiau mynd ar y llongau ac mae'n bur debyg y bydd rhaid i ni ddisgwyl am fisoedd cyn y cawn ni fynd. A beth ydyn ni am ei wneud yn y cyfamser?"

"Mae gynnon ni ychydig arian wrth gefn," meddai mam Tien, ond dim ond ychydig o arian, cofiwch. Mi fydd yn ddigon i dalu am un ohonon ni. Y peth gorau ydi i un ohonon ni fynd, a'r gweddill ohonom pan fydd gynnon ni ddigon o arian. "Pwy sydd am fynd gyntaf felly?" gofynnodd y tad-cu.

Trodd y tri i edrych ar Tien. “Ond fedra i ddim mynd...” crefodd Tien. Ond doedd dim dewis, os oedd y teulu i oroesi. Bu cryn drafod ar yr aelwyd.

Ymhen rhai dyddiau roedd y teulu cyfan yn sefyll ar lan y môr. Wedi angori yn y doc roedd cwch budr, bregus. Ynddo roedd dwsinau o bobl o bob oed ar gefnau'i gilydd. Roedd pob un ohonyn nhw'n edrych yn ofnus ac yn welw. “Brysiwch,” meddai'r capten, “mi fyddwn ni'n cychwyn yn y man, felly dowch yn eich blaenau. Gafaelodd Tien Chi yn sownd yn ei fam. Rhoddodd hithau gusan ar ei wyneb – efallai y gusan olaf. Gafaelodd yn dynn yn ei fam-gu a'i dad-cu cyn cerdded yn dalog tua'r cwch. Pan roddodd ei droed yn y cwch dechreuodd siglo'n ôl a blaen. Doedd o'n adnabod yr un enaid byw ar y llong. Doedd neb yn gwybod i ble roedd y llong yn mynd. Doedd neb yn gwybod am ba hyd y bydden nhw ar y môr.

Tybed a fyddai Tien yn gweld ei fam a'i fam-gu a'i dad-cu byth eto? Dyna'r cwestiynau oedd yn chwyrlïo drwy feddwl Tien pan gychwynnodd y cwch sigledig o'r porthladd.

Doedd Tien erioed wedi teimlo mor unig. Dechreuodd y dagrau redeg i lawr ei ruddiau. Gwelodd hen wraig ei fod yn crio ac aeth hi ato i'w gysuro. Ar ôl naw diwrnod ar drugaredd y tonnau daeth tancer olew heibio a chodi pob un oedd ar fwrdd y cwch bach, bregus. Ar ôl mordaith ddigon tawel ar fwrdd y tancer cyrhaeddodd Prydain Fawr. Y fath ryddhad.

Adnod: “Croeso i'th gartref newydd, a bendith a llawenydd iti! Croeso.” Tobit 11:17

Gweddi: O Dduw, rydym ni'n cofio heddiw am blant a phobl sy'n dioddef oherwydd rhyfeloedd a thrychinebau. Rydym yn cofio'n arbennig am y rhai sydd wedi colli eu teuluoedd a'u cartrefi. Rho iddyn nhw'r cadernid i ddal ati. Amen.

Trafod:

- Rhowch eich hunain yn esgidiau Tien. Sut y buasech chi'n ymateb?
- Beth yw eich barn chi am bobl o wledydd eraill sy'n dod i fyw i Brydain?